Madras

Dros y blynyddoedd
Dy wedd ddaeth yn freuddwyd
Diflannu a'm gadael yn drist
Yn dywyll dy groen a rhyfedd dy enw
I sibrwd "Madras" yn fy nghlust

0 bellter y dwyrain
Yn berlys a sidan
A'th lygaid yn dangos y fflam
I losgi y llwybr yn syth drwy fy nghalon
I'w ddilyn yn ddwys gam wrth gam

Madras, llosgi fy mysedd
Madras, cyffur a chysur
Madras, pleser di-baid

Ti ddaeth o'r diwedd
I'm hachub o'r salwch
Am gyrru yn wyllt efo'th wres
Ti yw'r gyfrinach, efo'th ddewiniaeth
Ei deimlo wrth dynnu yn nes.

Madras, llosgi fy mysedd
Madras, gwalch yn fy ngwaed i
Madras, pleser di-baid.

Geraint Griffiths